



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau o dan adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau
Tramwy yn gysylltiedig ag eithrio neu gyfyngu ar fynediad i
dir

Canllaw i Bersonau â Diddordeb

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	2
1. Pwy all apelio?	4
2. Sut rydw i'n cymryd rhan?	5
3. Y Weithdrefn ar gyfer ymdrin ag apeliadau	7
4. Y weithdrefn ysgrifenedig	9
5. Y weithdrefn gwrandawriad	9
6. Y weithdrefn ymchwiliad	10
7. Costau	14
8. Cwynion a Heriau	15
9. Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	17

Apeliadau yn erbyn penderfyniad awdurdod perthnasol i beidio ag eithrio neu gyfyngu ar fynediad i dir

Mae ail bennod Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen yn y llyfryn fel **y Ddeddf**) yn cynnwys mesurau i gyfyngu ar neu eithrio mynediad i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig a fapiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC). Yn y lle cyntaf, dylid gwneud ceisiadau i gyfyngu ar fynediad i dir i'r Awdurdod Perthnasol. Gall hwn gynnwys CCGC, neu lle y mae'r tir yn syrthio o fewn Parc Cenedlaethol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Os yw'r tir wedi'i roi yng ngofal y Comisiwn Coedwigaeth ac mae'n goetir yn bennaf, y Comisiynwyr fydd yn ymdrin ag unrhyw apeliadau.

Mae Adran 30 y Ddeddf yn sicrhau y gall ymgeiswyr apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio os penderfynodd yr Awdurdod Perthnasol beidio â gweithredu yn unol â chais i gyfyngu ar neu eithrio mynediad at ddibenion rheoli tir, tân neu berygl i'r cyhoedd.

Yn ogystal â hyn, lle bo awdurdod perthnasol eisoes wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i eithrio neu gyfyngu ar fynediad yn dilyn cais gan berson â diddordeb, mae'n rhaid iddynt ymgynghori â'r person hwnnw (neu bwy bynnag sydd wedi meddiannu eu diddordeb yn y tir) cyn diddymu neu amrywio cyfarwyddyd. Os bydd y person â diddordeb yn gwneud cynrychioliadau i'r Awdurdod Perthnasol a bydd yr Awdurdod hwnnw yn penderfynu peidio â gweithredu yn unol â'r cynrychioliadau hynny, mae gan y person â diddordeb hawl i apelio.

Yr Arolygiaeth Gynllunio a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn penderfynu ar unrhyw apeliadau a wneir.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r weithdrefn ar gyfer y rheini sy'n dymuno cymryd rhan mewn apeliadau yn erbyn penderfyniad yr awdurdod perthnasol i beidio ag eithrio neu gyfyngu ar fynediad i dir neu lle y dylai'r awdurdod perthnasol fod wedi gweithredu yn unol â'r cynrychioliad(au) a wnaed gan yr ymgeisydd, ond na wnaeth hynny. Roedd y wybodaeth a gynhwyswyd ynddo yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi, ond nid oes iddo statws cyfreithiol.

Ynglŷn â'r Arolygiaeth Gynllunio

Rydym yn un o asiantaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. O'n swyddfa yng Nghaerdydd, rydym yn ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniad yr awdurdod perthnasol yng Nghymru i beidio â chyfyngu ar neu eithrio mynediad i dir at ddibenion rheoli tir, tân a pherygl neu gadwraeth natur a chadw treftadaeth neu i beidio â gweithredu yn unol â'r cynrychioliad(au) a wnaed gan berson â diddordeb yn y tir. O'n swyddfa ym Mryste, rydym yn ymdrin ag apeliadau tebyg ar gyfer tir yn Lloegr.

Mae gan yr Arolygwyr, sy'n barnu'r apeliadau, amrywiaeth o gefndiroedd. Dewiswn yr Arolygwyr yn ofalus iawn a byddwn yn eu hyfforddi'n drylwyr. Maent yn gweithio o gartref yn gyffredinol.

1. Pwy all apelio?

Dim ond pobl sydd â diddordeb cyfreithiol yn y tir a fapiwyd gan fapiau dros dro neu derfynol CCGC fel cefn gwlad agored neu dir comin cofrestredig all apelio. Er mwyn cael diddordeb cyfreithiol yn y tir, mae'n rhaid:

- mai chi yw'r tiffeddiannwr neu'r tenant;
- i chi ddal hawliau tir comin neu hawliau hela; neu
- i chi gael unrhyw ddiddordeb arall yn y tir, megis trwydded bori neu hawl tramwy preifat.

Rhoddir manylion am ddiddordeb yn y tir yn adran 45(1) y Ddeddf. Os nad ydych yn sicr p'un a oes gennych ddiddordeb, dylech gysylltu â chynghorydd cyfreithiol, Canolfan Cyngor ar Bopeth neu sefydliad sy'n cynrychioli rheolwyr tir.

Dim ond yr apelydd all apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Perthnasol i wrthod gweithredu yn unol â'u cais. Yn yr un modd, dim ond y person a wnaeth gynrychioliadau pan ymgynghorwyd â nhw o dan adran 27(5) – pan fydd yr awdurdod perthnasol yn dymuno diddymu neu amrywio cyfarwyddyd sy'n bodoli, all apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Perthnasol i weithredu yn unol â'u cynrychioliadau.

Mae'n rhaid apelio o fewn y **cyfnod apelio**. Mae hwn yn para am chwe wythnos o'r dyddiad y gwneir penderfyniad gan yr awdurdod perthnasol. Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn apeliadau hwyr.

Mae'n rhaid cyflwyno'r apêl ar ein ffurflen apelio safonol.

2. Sut rydw i'n cymryd rhan?

Os bydd person â diddordeb yn dymuno gwneud cynrychioliadau, dylent ysgrifennu atom yn uniongyrchol. Amlinellir amserlenni a gweithdrefnau y dylid eu dilyn yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Dylech fod yn ymwybodol y bydd unrhyw gyflwyniadau a wnewch ar gael i'w harolygu a'u copïo. Felly, ni ddylech gynnwys gwybodaeth bersonol oni bai eich bod yn fodlon i bobl eraill ei gweld.

Cyn gwneud sylwadau ar unrhyw apêl, ewch i'n gwefan www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/wal/index.htm a fydd yn dangos gwybodaeth am bob apêl. Bydd hyn yn eich helpu i nodi union leoliad safle'r apêl a natur unrhyw gyfyngiad. Bydd hyn yn eich helpu i wneud eich sylwadau yn fwy perthnasol i'r materion sydd wrth wraidd yr apêl.

Dylid anfon unrhyw gynrychioliadau am apeliadau cyfyngu yng Nghymru atom yn:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Y Tîm Mapio Mynediad a Chyfyngiadau
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

accesswales@planning-inspectorate.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu cynrychioliadau yn Gymraeg neu'n Saesneg

Cyhoeddusrwydd

Mae'n rhaid i ni gyhoeddi hysbysiad o bob apêl a dderbyniwn ar ein gwefannau Cymraeg a Saesneg (www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/wal/index.htm a www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/cym/index.htm) i roi cyfle i bobl a sefydliadau roi sylwadau. Mae'r hysbysiad yn rhoi manylion o ble y gall aelodau'r cyhoedd weld dogfennau sy'n ymwneud â'r apêl.

Rydym hefyd yn cyhoeddi fersiynau wedi'u sganio o'r dogfennau apêl ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys ffurflen apelio a dogfennau ategol yr apelydd, holiadur yr Awdurdod Perthnasol, cynrychioliadau gan yr apelydd, yr Awdurdod Perthnasol a phersonau â diddordeb ar y cyfnod chwe wythnos a chynrychioliadau pellach gan yr apelydd a'r Awdurdod Perthnasol ar y cyfnod naw wythnos.

Mae'n rhaid i ni hysbysu'r awdurdod mynediad ar gyfer yr ardal, y fforwm mynediad lleol ac unrhyw un sydd wedi gwneud sylwadau i'r Awdurdod Perthnasol am y cais gwreiddiol. Bydd ganddynt gyfle i roi sylwadau pellach ar y cynrychioliadau a wnaethant ar y cyfnod cyflwyno cais. Rhoddir gwybod iddynt hefyd lle y gallant weld dogfennau sy'n ymwneud â'r apêl.

Bydd cyfle i'r apelydd a'r Awdurdod Perthnasol roi sylwadau ar unrhyw gynrychioliadau gan bersonau â diddordeb. Bydd yr Arolygydd yn ystyried y rhain a chynrychioliadau'r personau â diddordeb cyn dod i benderfyniad, ar yr amod y cânt eu derbyn o fewn yr amserlen.

Dylech fod yn ymwybodol y caiff unrhyw gyflwyniadau a wneir gennych eu cyhoeddi ar ein gwefan a sicrheir eu bod ar gael i'w harchwilio a'u copïo. Felly, ni ddylech gynnwys gwybodaeth bersonol oni bai eich bod yn fodlon i bobl eraill ei gweld.

3. Y Weithdrefn ar gyfer ymdrin ag apeliadau

Mae'r camau cychwynnol yr un fath ar gyfer pob gweithdrefn apelio, p'un a benderfynir arnynt drwy gynrychioliadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad. Hysbysir personau â diddordeb am apêl os ydynt eisoes wedi gwneud cynrychioliadau o ran safle'r apêl (ar y cyfnod gwneud cais) a bydd ganddynt chwe wythnos o'r **dyddiad dechrau** naill ai i ychwanegu at eu sylwadau neu eu tynnu yn ôl.

Os na wnaethoch gynrychioliadau yn flaenorol (ac felly ni chewch wybod am apêl), gallwch ganfod p'un a wnaed apêl ar safle drwy fynd i'n gwefan. Unwaith eto, mae'n rhaid i unrhyw sylwadau gael eu gwneud cyn y terfyn amser o chwe wythnos.

Y dyddiad 'dechrau'

Cyn gynted ag y byddwn wedi derbyn apêl ddilys, byddwn yn rhoi copi ohoni i'r Awdurdod Perthnasol. Yna, byddant yn cwblhau holiadur ac yn ei anfon at yr apelydd a ninnau, ynghyd â chopïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol.

Wedyn, byddwn yn rhoi gwybod i'r apelydd, yr Awdurdod Perthnasol, y Fforwm Mynediad Lleol ac unrhyw un sydd wedi gwneud sylwadau ar y cais gwreiddiol pa weithdrefn y bydd yr apêl yn ei dilyn yn ogystal â'r dyddiad dechrau.

Y dyddiad dechrau yw'r dyddiad y caiff yr amserlen ar gyfer pob cam o'r weithdrefn eu cyfrif ohono. Byddwn yn pennu dyddiadau dechrau ar ôl i'r cyfnod apelio orffen. Bydd y llythyr yr anfonwn atoch yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth gan bob parti.

Y terfyn amser o chwe wythnos

Mae'n rhaid i bersonau â diddordeb gyflwyno unrhyw gynrychioliadau o fewn chwe wythnos i'r dyddiad dechrau. Mae'n rhaid i'r apelydd a'r Awdurdod Perthnasol hefyd gyflwyno datganiadau achos ysgrifenedig erbyn yr un dyddiad. **Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn cynrychioliadau hwyr, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.**

Os ystyriwn fod unrhyw gynrychioliadau a wnewch yn cynnwys sylwadau hiliol neu sarhaus, byddwn yn eu dychwelyd atoch cyn i'r Arolygydd eu gweld. Os byddwch yn hepgor y sylwadau hiliol neu sarhaus, gallwch ddychwelyd eich sylwadau atom. Ond mae'n rhaid i ni eu derbyn cyn i'r terfyn amser ddod i ben.

Pan bennir y dyddiad dechrau, byddwn hefyd yn gosod hysbysiad o'r apêl ar ein gwefan i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r apêl ac i'w galluogi i wneud cynrychioliadau amdani os byddant yn dymuno.

Y terfyn amser o naw wythnos

O fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau, gall apelyddion a'r Awdurdod Perthnasol wneud sylwadau ar ddatganiadau achos ei gilydd ac ar unrhyw sylwadau gan bersonau â diddordeb.

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel i'w gwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cydnabyddwn y gall ein cwsmeriaid fynegi eu barn yn well yn eu dewis iaith gyfathrebu. Yn unol â hynny, rydym yn eu croesawu i gyfathrebu â ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gall unrhyw berson sy'n dymuno siarad yn Gymraeg mewn ymchwiliad neu wrandawriad wneud hynny, ond byddai'n ddefnyddiol pe gallech hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio ymlaen llaw er mwyn gallu gwneud trefniadau.

Nid yw bob amser yn bosibl trefnu i Arolygydd Cymraeg fynychu'r ymweliad â'r safle. Ar yr adegau hyn, byddwn yn trefnu i gyfieithydd gynorthwyo'r Arolygydd ac yn sicrhau bod gan y partïon gyfle i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Y tri math o weithdrefn

4. Y weithdrefn ysgrifenedig

Mae'n debygol mai dyma'r weithdrefn hawsaf a lleiaf drud i'r apelydd a'r Awdurdod Perthnasol am nad oes angen iddynt fynychu gwrandawriad neu ymchwiliad. Penderfynir ar apeliadau yr ymdrinnir â hwy gan gynrychioliadau ysgrifenedig yn seiliedig ar y datganiadau ysgrifenedig a wnaed gan yr apelydd, yr Awdurdod Perthnasol a'r personau â diddordeb. Gall yr apelydd a'r Awdurdod Perthnasol wneud sylwadau ar ddadleuon ei gilydd a'r rheini a wnaed gan bersonau â diddordeb.

Fel rheol, bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle i gynnal arolygiad ohono cyn gwneud penderfyniad.

5. Y weithdrefn gwrandawriad

Trafodaeth am yr apêl a arweinir gan yr Arolygydd yw gwrandawriad. Mae'n fwy anffurfiol ac fel arfer yn gyflymach nag ymchwiliad ac mae'n gwneud i'r partion ganolbwyntio ar y prif faterion y ceir anghydfod yn eu cylch. Disgwyliwn i'r rhan fwyaf o'r gwrandawiadau gael eu cwblhau o fewn awr a hanner.

Nid yw gwrandawiadau bob amser yn addas ar gyfer pob apêl, yn arbennig y rheini sy'n gymhleth neu'n ddadleuol, neu sydd wedi achosi llawer o ddiddordeb lleol neu lle y mae angen croesholi tystion.

Rhybudd o'r gwrandawriad

Unwaith y bydd y trefniadau wedi'u terfynu, byddwn yn rhoi rhybudd i'r apelydd, yr awdurdod perthnasol ac unrhyw bersonau â diddordeb sydd wedi gwneud cynrychioliadau am yr apêl, am y gwrandawriad, o leiaf bedair wythnos ymlaen llaw.

Cynnal y gwrandawriad

Yr Arolygydd sy'n penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawriad.

Bydd yr Arolygydd fel rheol yn dechrau ar yr amser a bennwyd, hyd yn oed os yw'r apelydd neu'r awdurdod perthnasol yn absennol. Bydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei hun ac yn disgrifio diben y gwrandawriad. Bydd yr Arolygydd yn crynhoi ei ddealltwriaeth o'r achos o ddarllen y papurau a bydd yn amlinellu'r prif faterion yn ei farn ef ac yn nodi unrhyw faterion sydd angen eglurhad neu esboniad pellach. Ni fydd hyn yn atal unrhyw barti rhag codi materion nad yw'r Arolygydd yn eu crybwyll.

Yr apelydd a'r Awdurdod Perthnasol yw'r unig bartïon sydd â'r hawl statudol i siarad yn y gwrandawriad. Ond, ni fydd yr Arolygydd yn gwrthod caniatáu yn afresymol i unrhyw berson arall ymddangos ar yr amod bod ganddynt rywbeth perthnasol i'w ddweud nad yw wedi'i ddweud eisoes. Waeth pwy sy'n siarad, gall yr Arolygydd wrthod gwrando ar dystiolaeth sy'n amherthnasol, ailadroddus neu'n sarhaus.

Os bydd yr Arolygydd yn gwrthod caniatáu i rywun roi tystiolaeth ar lafar, gall y person hwnnw gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall i'r Arolygydd yn ysgrifenedig cyn diwedd yr ymchwiliad.

Mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn gofyn i unrhyw un sy'n bresennol yn y gwrandawriad sy'n ymddwyn yn aflonyddol adael yr ymchwiliad ac yn gwrthod caniatáu iddo ddychwelyd, neu'n caniatáu iddo ddychwelyd ar amodau a nodwyd gan yr Arolygydd yn unig. Ond gall y person hwnnw gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall i'r Arolygydd yn ysgrifenedig cyn diwedd y gwrandawriad.

Ar ôl y gwrandawriad

Bydd ymweliad â'r safle fel arfer yn digwydd (gweler ymweliadau â safle Gwrandawriad/Ymchwiliad).

Ar ôl yr ymweliad â'r safle, bydd yr Arolygydd yn rhoi penderfyniad ysgrifenedig yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth berthnasol. Wrth wneud y penderfyniad, bydd yr Arolygydd bob amser, heblaw am amgylchiadau eithriadol, yn diystyru unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall a dderbynnir ar ôl i'r gwrandawriad orffen.

6. Y weithdrefn ymchwiliad

Dyma'r weithdrefn fwyaf ffurfiol ac ymestynnol o'r tair. Ystyriwn mai dim ond ar gyfer apeliadau sy'n cynnwys materion cymhleth neu niferus iawn, neu lle y bydd nifer fawr o bobl yn dymuno mynychu, y bydd angen ymchwiliadau cyhoeddus. Mae'n bosibl y gall unrhyw barti wneud cais am gostau yn erbyn unrhyw barti arall mewn ymchwiliad (gweler adran saith).

Mae camau cynnar apêl yn dilyn y weithdrefn ymchwiliad yn debyg iawn i'r rheini ar gyfer gwrandawriadau ac apeliadau cynrychioliadau ysgrifenedig. *Ond mae rhai gwahaniaethau y bydd yn rhaid i'r partiön lynu wrthynt.*

Datganiad tir cyffredin

O leiaf bedair wythnos cyn dechrau'r ymchwiliad, mae'n rhaid i'r apelydd a'r Awdurdod Perthnasol anfon datganiad tir cyffredin atom.

Datganiad ysgrifenedig yw hwn y mae'n rhaid i'r apelydd a'r Awdurdod Perthnasol ei baratoi ar y cyd. Dylai gynnwys y cyfryw faterion sylfaenol megis disgrifiad o'r safle ac unrhyw faterion ffeithiol y mae anghydfod yn eu cylch, yn ogystal ag unrhyw gytundebau fel tystiolaeth y gallai'r prif bartïon eu cyrraedd. Ei ddiben yw nodi'r wybodaeth ffeithiol gytûn am yr apêl a dylai, drwy gyfyngu ar y meysydd y ceir anghydfod yn eu cylch, arwain at ymchwiliadau byrrach.

Hysbysebu'r ymchwiliad

Byddwn yn rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol, y fforwm mynediad lleol perthnasol ac unrhyw bobl sydd wedi ysgrifennu atom am y trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad.

Yn yr ymchwiliad

Bydd yr Arolygydd yn dechrau trwy gyflwyno ei hun, cyhoeddi testun yr ymchwiliad a gofyn am enwau'r holl bobl sy'n dymuno siarad. Yna, fel rheol, bydd yr Arolygydd yn esbonio'r weithdrefn.

Mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad ddilyn yr un rheolau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y weithdrefn yn deg i bawb. Bydd yr Arolygydd yn sicrhau bod ganddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen i benderfynu ar yr apêl.

Bydd yr Awdurdod Perthnasol fel rheol yn cyflwyno ei achos gyntaf, ac yna yn galw ar unrhyw dystion. Gall yr apelydd wedyn gyflwyno ei achos yn yr un ffordd. Gall y naill barti neu'r Arolygydd ofyn cwestiynau yn ystod y broses hon.

Yr apelydd a'r Awdurdod Perthnasol yw'r unig bartïon sydd â'r hawl statudol i siarad yn yr ymchwiliad. Ond ni fydd yr Arolygydd yn gwrthod caniatáu yn afresymol i unrhyw berson arall ymddangos ar yr amod bod ganddynt rywbeth perthnasol i'w ddweud nad yw wedi'i ddweud eisoes. Waeth pwy sy'n siarad, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn gwrthod gwrando ar dystiolaeth sy'n amherthnasol, ailadroddus neu'n sarhaus.

Os bydd yr Arolygydd yn gwrthod caniatáu i rywun roi tystiolaeth ar lafar, gall y person hwnnw gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall i'r Arolygydd yn ysgrifenedig cyn diwedd yr ymchwiliad.

Mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn gofyn i unrhyw un sy'n bresennol yn yr ymchwiliad sy'n ymddwyn yn aflonyddol adael yr ymchwiliad ac yn gwrthod gadael iddo ddychwelyd, neu'n caniatáu iddo ddychwelyd ar amodau a nodwyd gan yr Arolygydd yn unig. Ond gall y person hwnnw gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall i'r Arolygydd yn ysgrifenedig cyn diwedd yr ymchwiliad.

Ymweliadau â safle'r Gwrandawriad/Ymchwiliad

Ym mwyafrif yr achosion, bydd yr Arolygydd yn ymweld â safle'r apêl cyn gwneud y penderfyniad. Wrth wrando ar achosion ymchwilio, bydd yr ymweliad â'r safle fel rheol yn digwydd ar ôl i'r Arolygydd wrando ar yr holl dystiolaeth. Mae'n bosibl y caiff yr ymweliad â'r safle ei gynnal ar ddiwrnod y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, ond os na, fe'i cynhelir yn fuan wedyn.

Ar ddiwedd y gwrandawriad neu'r ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn gofyn a fydd yr apelydd, yr awdurdod perthnasol ac unrhyw un arall yn dymuno mynychu. Wrth benderfynu p'un a ydych am fynd gyda'r Arolygydd, dylech gofio na all yr Arolygydd dderbyn tystiolaeth newydd neu drafod y dystiolaeth a roddwyd eisoes **gan gynnwys cynrychioliadau gan bersonau â diddordeb**. Ond mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn gofyn i nodweddion ffisegol y cyfeirir atynt yn y dystiolaeth gael eu hamlygu ar y safle.

Bydd Arolygwyr yn cadw at y rheol hon yn llym. Os byddwch yn ceisio codi pwyntiau o dystiolaeth yn ystod yr ymweliad, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi beidio â gwneud hynny ac yn esbonio pam. Os byddwch yn parhau i drafod y dystiolaeth, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi adael y safle.

Sylwadau hwyr

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw dystiolaeth a dderbynnir gennym ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben. Os cawn dystiolaeth newydd ar ôl yr ymchwiliad ond cyn i ni gyhoeddi penderfyniad yr Arolygydd, byddwn yn ei throsglwyddo i'r Arolygydd i benderfynu a fydd ef/hi yn ei hystyried. Os, mewn amgylchiadau anarferol iawn, y byddant, byddwn yn ei throsglwyddo i'r bobl eraill a oedd yn rhan o'r ymchwiliad. Os bydd angen, byddwn yn ailagor yr ymchwiliad.

Pobl ag anableddau

Rydym yn awyddus i gynnal pob ymchwiliad mewn adeiladau sydd â'r cyfleusterau cywir i bobl ag anableddau. Yr Awdurdod Perthnasol sy'n dewis ac yn darparu'r lle fel rheol ac rydym wedi gofyn iddynt roi sylw arbennig i anghenion pobl ag anableddau. Os hoffech chi, neu unrhyw un rydych yn ei adnabod, fynd i'r ymchwiliad a bod gennych anghenion penodol, cysylltwch â'r Awdurdod Perthnasol i gadarnhau y gall wneud trefniadau priodol.

Cyfarfodydd cyn ymchwiliad

Weithiau, os bydd llawer o bobl yn dymuno mynd i'r ymchwiliad neu os yw'r apêl yn gymhleth ac yn debygol o bara am fwy nag wyth diwrnod, byddwn yn trefnu cyfarfod cyn yr ymchwiliad (cyfarfod cyn-ymchwiliad). Ei ddiben fydd nodi'r materion allweddol i'w trafod yn yr ymchwiliad. **Ni fydd y cyfarfod cyn-ymchwiliad yn gwrando ar unrhyw dystiolaeth y dylid ei chlywed yn yr ymchwiliad llawn.**

Nid oes gan unrhyw un heblaw'r ddau brif barti hawl i fynychu cyfarfod cyn-ymchwiliad (ac am y rheswm hwn ni fyddwn yn rhoi hysbysiad ohono). Lle y bydd yr Arolygydd yn credu ei bod yn ddymunol i rywun fod yn bresennol, yn ychwanegol i'r apelydd a'r Awdurdod Perthnasol, mae'n bosibl y gwahoddir y bobl neu'r sefydliadau hynny i'r cyfarfod cyn-ymchwiliad. Byddwn yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o leiaf bythefnos ymlaen llaw os caiff rhywun ei wahodd.

Y penderfyniad

Caiff penderfyniad Arolygydd ar apêl bob amser ei wneud yn ysgrifenedig. Bydd fel rheol yn:

- Disgrifio'n fras y rheswm dros yr apêl;
- Nodi'r materion pwysig;
- Archwilio'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn yr apêl ac yn esbonio pam fod yr Arolygydd wedi dod i'r penderfyniad.

Anfonir copi at yr apelydd, yr Awdurdod Perthnasol, personau â diddordeb ac unrhyw un arall sydd â'r hawl i gael copi neu sydd wedi gofyn am un. Caiff pob llythyr penderfyniad ei arddangos ar ein gwefannau yn Saesneg

www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/wal/index.htm

ac yn Gymraeg

www.planning-inspectorate.gov.uk/accesswales/cym/index.htm.

7. Costau

Fel rheol, byddwch yn gorfod talu eich treuliau eich hunain ar gyfer gwneud cynrychioliadau mewn apêl, p'un a gaiff ei phenderfynu drwy gynrychioliadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad. Os penderfynir ar yr apêl drwy wrandawriad neu ymchwiliad a gallwch ddangos bod yr apelydd neu'r Awdurdod Perthnasol wedi ymddwyn yn afresymol ac wedi peri i chi wastraffu treuliau neu dalu treuliau diangen, gallwch ofyn i'r Arolygydd orchymyn yr apelydd neu'r Awdurdod Perthnasol i dalu rhai o'ch costau neu'ch costau i gyd.

Yn gyffredinol, ni ddyfernir costau i bersonau â diddordeb, neu yn eu herbyn, lle y mae ymddygiad afresymol gan yr apelydd neu'r Awdurdod Perthnasol yn ymwneud â sylwedd yr achos. Ond, lle bod ymddygiad afresymol sy'n ymwneud â materion gweithdrefnol wedi achosi treuliau diangen, mae'n bosibl y dyfernir costau i bersonau â diddordeb, neu yn eu herbyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y rheolau sy'n ymwneud â chostau, gweler Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 23/93 sydd ar gael o'r Llyfrfa, rhif ffôn 0870 6005572 neu ar eu gwefan www.hmso.gov.uk, neu ar wefan yr Arolygiaeth www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/index_e.htm.

8. Cwynion a Heriau

Cwynion amdanom

Os oes gennych unrhyw gwynion neu gwestiynau am y penderfyniad, neu'r ffordd rydym wedi ymdrin â'r apêl, ysgrifennwch at:

Y Rheolwr Cwynion
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3889

Ffacs: 029 2082 5150

E-bost: complaints@planning-inspectorate.gsi.gov.uk

Bydd y Rheolwr Cwynion yn eich ateb, neu bydd yn gofyn i adran o fewn yr Arolygiaeth ateb oherwydd bod ganddynt wybodaeth arbenigol benodol.

Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn a gallwch ddisgwyl ateb llawn o fewn tair wythnos. **Fodd bynnag, ni allwn ailystyried apêl os gwnaed y penderfyniad arno eisoes.**

Sut y gallaf herio penderfyniad?

Mae'n bosibl y gallwch herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Mae'r Arolygiaeth yn argymhell yn gryf eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol os bwriedwch wneud hynny.

Ombwdsmon Gweinyddol Cymru

Os ydych o'r farn na wnaethom ymdrin â chi yn deg, gallwch ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw bŵer i gwestiynu teilyngdod apêl neu i newid y penderfyniad. Mae'r Ombwdsmon ond yn ymboeni ynghylch y ffordd y byddwn yn ymdrin ag apeliadau ac yn eu gweinyddu. Bydd yr Ombwdsmon fel rheol yn disgwyl i chi fod wedi gwneud cwyn i ni yn gyntaf cyn ymchwilio i'ch achos. Gallwch gwyno i'r Ombwdsmon yn:

Ombwdsmon Gweinyddol Cymru
Pumed Llawr
Tŵr y Brifddinas
Heol y Brodyr Llwydion
Caerdydd

CF10 3AG

Y Cyngor ar Dribiwnlysoedd

Os credwch fod rhywbeth o'i le ar y weithdrefn sylfaenol a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ymdrin ag apêl, gallwch gwyno i'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd yn:

Council on Tribunals
22 Kingsway
London
WC2B 6LE

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â'ch cwyn os credant ei bod yn ymwneud â hwy. Yn debyg i'r Ombwdsmon, nid ydynt yn pryderu am deilyngdod yr apêl ac nid oes ganddynt unrhyw bŵer i newid y penderfyniad.

Apeliadau yn Lloegr

Os hoffech ymholi ynglŷn ag apeliadau yn erbyn penderfyniad awdurdod perthnasol i wrthod cyfyngu ar neu eithrio mynediad i ardaloedd o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig ar safle yn Lloegr, cysylltwch â Thîm Mynediad a Chyfyngiadau Lloegr yn;

English Access and Restriction Team
Room 215
Regus House
1 Friary
Temple Quay
Bristol BS1 6EA

Ffôn: 0117-344 5680 neu 5738

Ffacs: 0117-344 5242 E-bost: access@pins.gsi.gov.uk

9. Diogelu Data a Phreifatrwydd yn yr Arolygiaeth Gynllunio

Os byddwch yn cymryd rhan mewn apêl, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartion statudol eraill.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau apêl a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.

Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cyngorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:
www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

Cysylltu â ni

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk